**Atodiad 3**

## Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2013/2014 - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

### Y prif adborth a'r pwyntiau a godwyd ym Mhwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014

(a) Adroddodd Mr Marc Roberts (AGGCC) bod ôl gwaith caled gan reolwyr a staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod elfennau o'r cynlluniau yn heriol iawn gyda rhaglen waith enfawr i'w gwireddu yn unol â'r gyllideb ariannol. Gwelwyd gwelliant yn nhrefniadaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â'r weledigaeth sydd gan y Cyngor.

(b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Yn wyneb yr holl newidiadau mewn deddfwriaeth a'r gofynion ohonynt, sut y gellir sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gweithredu yn unol ag anghenion a gofynion y defnyddwyr. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddir yn rhoi trigolion Gwynedd yn flaenllaw i'r hyn a weithredir ond ei fod yn golygu newid i'r defnyddwyr ond drwy gyd-weithio byddir yn sicrhau'r gwasanaeth gorau i unigolion.

(ii) Mynegwyd pryder na ellir gwireddu arbedion heb effeithio ar wasanaeth i unigolion a'i fod yn anodd gwneud toriadau.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag arweiniad a chyfrifoldeb i wireddu dyhead AGGCC, nodwyd ei fod yn allweddol i Aelodau gefnogi moderneiddio'r Gwasanaeth, dylanwadu ar y Bwrdd Iechyd, a monitro sut mae'r Gwasanaeth yn ymdrin â'r defnyddwyr.

(iv) O safbwynt dylanwadu ar y Bwrdd Iechyd, nodwyd bod hyn wedi bod yn anodd i'r Cyngor yn y gorffennol a hyderir y bydd cyd-weithio cadarn i'r dyfodol o ran tegwch i'r defnyddwyr.

(v) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag effaith y newidiadau ar y fframwaith gofal cartref cymunedol, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai newid mewn patrwm o anghenion y defnyddwyr oherwydd bod cost y pen i unigolyn ag anghenion dwys i aros gartref yn uchel. Rhaid sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at y pecynnau cymhleth sydd yn bodoli bellach. Byddai'n ofynnol ystyried rhagamcanion a thargedu fwy i'r dyfodol er sicrhau'r budd gorau o'r arian i'r defnyddwyr.

(vi) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rôl y Cyfarwyddwr Corfforaethol, nododd cynrychiolydd AGGCC ei fod yn ymwybodol bod cynnydd wedi ei wneud ac y byddir yn trafod ymhellach yn ystod y flwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr a'r Prif Weithredwr yn unol â chanllawiau o safbwynt cyfrifoldebau a chytuno ar brosesau a phrotocol o gofio hefyd y bydd oblygiadau yn deillio o newidiadau yn dilyn cyhoeddiad o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol.

(vii) Esboniwyd yng nghyd-destun Cynllun Strategol gyda'r Bwrdd Iechyd o safbwynt iechyd meddwl plant, bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal

ar lefel rheolaethol ac yn edrych ar faterion mynediad i blant a phobl ifanc ac argaeledd y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol a thu allan i'r Sir.

(viii) Pryder ynglŷn â phwysau gwaith ychwanegol oherwydd absenoldeb staff. Mewn ymateb, nodwyd bod trefniadau mewn lle i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwyr Gwasanaethau Oedolion bontio'r bwlch gydag arbenigwr allanol yn arwain ar brosiectau penodol

(ix) Gofynnwyd am sicrwydd bod Aelodau etholedig yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â chwynion ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol cyflwyno papur cychwynnol i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar brosesau'r drefn gwynion i gynnwys categorïau o'r cwynion, amserlen a sut y byddir yn rhaeadru gwybodaeth gydag Aelodau.